Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Llywodraeth Cymru

7 Hydref 2020

Annwyl Andrew

Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru

Yn ein cyfarfod ar 28 Medi, trafododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn ein hadroddiad ar Effeithiolrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru. Roedd yr Aelodau'n falch o nodi bod pob un o'r argymhellion wedi'u derbyn. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, nid oedd yn glir sut y byddai'r camau a amlinellir yn yr ymateb yn gweithredu'r argymhellion a wnaed.

Byddwn yn croesawu eglurder a rhagor o fanylion am yr argymhellion a ganlyn:

Argymhelliad 5

Nodaf y bydd angen newid deddfwriaeth sylfaenol i weithredu'r argymhelliad a sicrhau bod Cynllunio Lleoedd yn ystyriaeth statudol. Roedd y Pwyllgor yn teimlo nad oedd y sylwebaeth yn darparu sicrwydd y byddai'n mynd i'r afael â'i argymhelliad. Mae Cynllunio Lleoedd yn dod yn rhan ganolog o'r ffordd rydym yn defnyddio ein trefi a'n dinasoedd, yn enwedig yn sgil ôl-effeithiau Covid-19 a'r argyfwng hinsawdd i gymunedau. Mae angen ymgorffori Cynlluniau Lle yn y system gynllunio.

O ystyried y safbwynt hwn, byddai'r Pwyllgor yn croesawu eglurhad ynghylch y pwyntiau a ganlyn:

- A wnaiff Llywodraeth Cymru ddeddfu i sicrhau bod cynllunio lleoedd yn ofyniad statudol? Os felly, erbyn pryd?
- Os na wneir hynny, sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod cynlluniau lle yn effeithiol o ystyried y problemau a welir o ran diffyg cydymffurfiad â gofynion gwirfoddol hyd yn hyn?

Argymhellion 6 a 7

Mae'r argymhellion hyn yn ymwneud â chytundebau Adran 106. Er eich bod wedi derbyn y ddau, mae rhai o'r camau i'w gweithredu yn rhai sy'n amodol ar bwysau eraill, fel Brexit, Covid-19 a'r rhaglen ddeddfwriaethol. Rydym yn bryderus y gallai hyn atal pethau rhag symud ymlaen. A allwch egluro i'r Pwyllgor sut yr ydych yn bwriadu gwneud cynnydd yn y maes pwysig hwn o ystyried methiannau'r system bresennol sydd wedi cael llawer o sylw?

Yn yr un modd, mewn perthynas ag Argymhelliad 7, gofynnwyd i awdurdodau lleol ystyried sut y gallent fwrw ymlaen â hyn o dan y Bil Llywodraeth Leol. Mewn gwirionedd, roedd y Pwyllgor yn teimlo na fydd hyn yn digwydd yn gyflym ac i bob pwrpas ni fydd dulliau rhanbarthol o ymdrin â Pholisi Cynllunio yn digwydd am rai blynyddoedd. O ystyried pwysigrwydd cytundebau Adran 106, byddem yn croesawu cyfres gliriach o gamau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer sut y bydd yn cyflawni'r argymhelliad hwn.

Fel pwynt cyffredinol, er bod y Pwyllgor yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi derbyn pob argymhelliad, roeddem yn teimlo y byddai'n briodol i'r ymateb gynnwys amserlenni targed i alluogi'r pwyllgor i farnu'r cynnydd.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,

Nick Ramsay AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English.